# Parti Dawns Aelwyd Aberystwyth

## Dawns Ddiamwnt – Aberaeron – 1 Hydref 2016

Annwyl Ffrindiau

Mae'n bleser gennym eich gwahodd i'r Ddawns Ddiamwnt - er mwyn dathlu **60 mlynedd o Barti Dawns Aelwyd Aberystwyth**, ac fe hoffwn weld cymaint ohonoch ag sy'n bosibl yno.

Fe fydd yn cael ei gynnal yn Neuadd Goffa Aberaeron (Ffordd y De, Aberaeron, SA46 0DP) ar **ddydd Sadwrn, 1 Hydref 2016,** 6.30yh erbyn 7yh ar gyfer y Bwffe-Ginio. Bydd y dawnsio yn dechrau o gwmpas 8yh ac yn gorffen tua chanol nos. Mae'r tocynnau ar gyfer y noson (bwffe a dawns) yn £17.50 yr un. Nodwch bydd bar trwyddiedig ar gael a gwisg y noson fydd "smart-hamddenol".

Rwy'n amgau rhaglen y noson a dylai rhan fwyaf o'r dawnsiau fod yn gyfarwydd i chi. Gallwn ddanfon cyfarwyddiadau unrhyw dawnsiau anghyfarwydd i chi ar gais, neu maent i'w gweld yng nghoeddiadau'r Gymdeithas**. Fe fyddwn yn ddiolchgar pe taech yn ymarfer rhai o'r dawnsiau anghyfarwydd cyn dod er mwyn lleihau'r amser galw.**

Yn y bore a'r prynhawn, bydd dawnsio yn y Bandstand newydd ac ar y prom yn Aberystwyth, a gobeithiwn weld llawer ohonoch chi yno er mwyn ymuno â ni - ac i'w wneud yn Ddiwrnod o Ddawnsio go iawn!

Mae digonedd o lefydd aros i'w gael, yn Aberystwyth ac yn Aberaeron. Mae Swyddfa Ymwelwyr Ceredigion yn gallu darparu gwybodaeth os dymunir - 01970 612125 (Aberystwyth) neu 01545 570602 (Aberaeron) neu ar http://www.discoverceredigion.co.uk/Cymraeg/footer/canolfannaucroeso/Pages/tics.aspx.

Mae ffurflen archebu ar y dudalen olaf. Os ydych yn dymuno dod, a allwch chi ei lenwi a'i ddanfon yn ôl i'r cyfeiriad ar y ffurflen gyda'r siec**, i'w ddychwelyd cyn dydd Llun 19 Medi 2016.**

Am unrhyw wybodaeth arall cysylltwch â mi ar 07599 019356 neu annethprosser028@gmail.com.

Gobeithio eich gweld ar y diwrnod!

Anne Hobbs